HM Prison & Probation Service

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 8 Ionawr 2020

Ymateb i: Arolygiad thematig o Waith Ailsefydlu Pobl Ifanc yn y Gymuned

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 8 Hydref 2019

## RHAGARWEINIAD

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau troseddwyr ifanc a gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd ar effeithiolrwydd y gwasanaeth prawf a gwaith gwasanaethau troseddwyr ifanc gydag oedolion a phlant.

Mewn ymateb i'r adroddiad, mae'n ofynnol i HMPPS/MoJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau a gytunir â'r argymhellion, a gytunir arnynt yn rhannol neu a anghytunir â hwy yn llwyr (gweler y categorïau isod). Os cytunir ag argymhelliad neu os cytunir arno'n rhannol, mae'r cynlluniau gweithredu yn darparu camau penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae camau gweithredu yn glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda'r un sy'n gyfrifol ac amserlen pob cam wedi'u nodi'n glir. Cyhoeddir cynlluniau gweithredu ar wefan Arolygaeth Prawf EM. Bydd y cynnydd o ran gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro gan HMPPS/MoJ a'i adolygu'n flynyddol gan Arolygaeth Prawf EM.

| Term | Diffiniad | Sylwadau Ychwanegol |
| --- | --- | --- |
| Cytuno | Cytunir â'r holl argymhellion, mae modd eu cyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb egluro'n glir sut y caiff yr argymhelliad ei gyflawni ynghyd â'r raddfa amser. Dylai'r camau gweithredu fod mor SMART (Specific, Measurable, Achievable, Realistic and Time-bound) â phosibl. Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol i'w holrhain er mwyn gweld sut maent yn datblygu. |
| Cytuno'n rhannol | Dim ond rhan o'r argymhelliad y cytunir arno, mae modd ei gyflawni, mae'n fforddiadwy a chaiff ei weithredu yn y man.<br>Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad a gaiff ei weithredu ynghyd â chamau SMART er mwyn gweld sut maent yn datblygu.<br>**Rhaid** egluro pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad - mae'n rhaid i hyn nodi'n glir a yw o ganlyniad i resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |
| Heb gytuno | Ni chytunir ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod o ganlyniad i resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam rydym wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>**Rhaid** egluro pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad - mae'n rhaid i hyn nodi'n glir a yw o ganlyniad i resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |

CYNLLUN GWEITHREDU: Arolygiad thematig o waith ailsefydlu pobl ifanc yn y gymuned

| 1. Rhif y Cofnod | 2. Argymhelliad | 3. Cytuno/ Cytuno'n rhannol/ Heb gytuno | 4. Ymateb Camau a gymerwyd/fwriedir eu cymryd | 5. Perchennog Cyfrifol (gan gynnwys unigolion a enwir a'u rôl neu adran swyddogaethol) | 6. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol:** | | | | |
| 1 | Ddarparu taliadau canolog ar gyfer cadw llety lle bo angen, er mwyn sicrhau bod gan blant lety addas ar gael, o leiaf un mis cyn y dyddiad rhyddhau cynharaf. | Cytuno'n rhannol | Cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn oherwydd nad oes gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) unrhyw reolaeth uniongyrchol dros yr agenda a gaiff ei datblygu gan yr Adran Addysg (DfE) neu'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Mae'r MoJ yn cytuno y dylai fod llety ar gael i blant cyn iddynt adael y ddalfa. Mewn gormod o achosion, pennir llety yn hwyr yn y dydd a/neu mae'n anaddas i'r plentyn. | | |
| | | | Mae'r MoJ yn adolygu'r ddarpariaeth o lety. Bydd y MoJ yn gweithio gyda'r DfE a'r MHCLG i ystyried y ffordd orau o sicrhau bod llety addas ar gael i blant cyn iddynt gael eu rhyddhau, gan ystyried ai system dalu ganolog yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r nod hwn. | Pennaeth Polisi y Ddalfa Ieuenctid ac Uwch Gynghorydd Polisi y Ddalfa Ieuenctid, MoJ | Mawrth 2020 |
| | | | Mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB), cynhaliodd y MoJ ddigwyddiad ym mis Rhagfyr 2019 i ddwyn ynghyd randdeiliaid allweddol gyda'r nod o ddod â chyrff cyfrifol a'r rhai arbenigol at ei gilydd i ysgogi gwelliannau i ganlyniadau llety ar gyfer plant sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Mynychodd randdeiliaid o bob rhan o'r llywodraeth boed hynny'n ganolog neu'n lleol, y trydydd sector a'r byd academaidd y digwyddiad. Dywedodd y bwrdd y bydd yn cydweithredu yn y dyfodol i gefnogi gwaith yn erbyn sawl argymhelliad yn yr adroddiadau arolygu thematig a thu hwnt. Mae gennym ddealltwriaeth dda o'r rhwystrau mewn perthynas â llety a bellach mae angen i ni weithredu i'w goresgyn. | Pennaeth Polisi y Ddalfa Ieuenctid ac Uwch Gynghorydd Polisi y Ddalfa Ieuenctid, MoJ | Wedi cwblhau |
| | **Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:** | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Sicrhau bod staff sy'n goruchwylio'r rhai sy'n symud i wasanaethau troseddwyr oedolion yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwasanaethau sy'n briodol i oedran ac aeddfedrwydd yr unigolyn. | Cytuno | Mae HMPPS a YCS yn ystyried symud i wasanaethau troseddwyr oedolion, gan gynnwys creu fframwaith polisi *'symud o ddalfa ieuenctid i ddalfa oedolion'*. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod staff priodol o'r ystad oedolion yn cael eu cynnwys yn gynnar yn y broses drawsnewid, gan gefnogi datblygiad cymhwysedd sy'n seiliedig ar oedran ymhlith staff ystadau oedolion. At hynny, bydd cyflwyno model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) yn helpu staff i gefnogi'r grŵp hwn drwy waith allweddol a chymorth gan Reolwyr Troseddwyr, gan gynnwys hwyluso'r broses o drosglwyddo i oruchwyliaeth gymunedol.<br><br>Mae'r Ystad Hir Dymor a'r Ystad Ddiogelwch Uchel (LTHSE) hefyd yn datblygu prosesau i sicrhau bod y broses o drosglwyddo oedolion ifanc o'r ystad ieuenctid yn cael ei chefnogi a'i datblygu'n dda. Lansiwyd offeryn sgrinio aeddfedrwydd a phecyn cymorth *Dewisiadau a Newidiadau* ym mis Gorffennaf 2019 er mwyn sicrhau bod cymorth priodol ar gael i oedolion ifanc. Bydd hyn yn sicrhau bod adnoddau perthnasol ar gael i'r staff ac yn annog oedolion ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau addas i'w hoedran. Mae *Dewisiadau a Newidiadau* wedi cael eu dilysu'n ddiweddar fel *System Ymyrraeth Effeithiol* o dan Orchymyn Gwasanaeth Carchardai 4350; fel y cyfryw, cydnabyddir ei fod yn gynnyrch priodol ac o safon.<br><br>Mae canllaw aeddfedrwydd o'r enw, Pecyn Adnoddau Dewis a Newid bellach wedi'i lwytho i'r platfform Paratoi i helpu staff i drosglwyddo i wasanaethau oedolion.<br><br>Mae Tîm Ymarfer Effeithiol y Gwasanaeth Prawf wedi cynhyrchu fideo ar gyfer staff sy'n dangos yr arfer gorau o ran y broses o fod yn oedolion. Mae'n aros am gymeradwyaeth derfynol cyn cael ei lwytho ar My learning platform er mwyn i staff sy'n goruchwylio gael mynediad ato a'i ddefnyddio. Bydd HMPPS yn sicrhau bod staff sy'n goruchwylio'r rhai sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion yn cael yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael. | Pennaeth Polisi Gweithredol YCS<br><br>Pennaeth Polisi Gweithredol YCS<br><br>Cyfarwyddwr Rhanbarthol (NPS Canolbarth Lloegr)<br><br>Cyfarwyddwr Rhanbarthol (NPS Canolbarth Lloegr) | Medi 2020<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Wedi cwblhau<br><br>Chwefror 2020 |
| | **Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:** | | | | |
| 3 | Sicrhau bod data dibynadwy ar ganlyniadau i blant sy'n gadael y ddalfa ar gael i lywio gwelliannau yn narpariaeth y gwasanaeth. | Cytuno | Mae ailsefydlu a symud rhwng gwasanaethau yn flaenoriaeth gyfredol i'r YJB. Fel rhan o'r gwaith i wella canlyniadau i blant a'u cymunedau ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa, mae'r YJB yn adolygu'r data a gesglir gan dimau troseddwyr ifanc er mwyn asesu perfformiad yn gywir a sbarduno gwelliannau. Bydd adrodd ar y data diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i dimau troseddwyr ifanc adrodd yn fanylach ar weithgarwch ailsefydlu, gan gynnwys sicrhau llety addas. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i | Arweinydd YJB ar gyfer Ailsefydlu ac Uwch Ddadansoddwr Gwybodaeth y YJB | Ebrill 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gefnogi swyddogaeth oruchwylio statudol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chyngor i Weinidogion a chydweithwyr ar draws y Llywodraeth. | | |
| | **Dylai Gwasanaethau'r Ddalfa Ieuenctid** | | | | |
| 4 | Hyrwyddo dealltwriaeth o waith ailsefydlu effeithiol ar draws yr holl asiantaethau ac adrannau o fewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. | Cytuno | Mae'r broses drawsnewid yn cael ei hystyried gan HMPPS, gan gynnwys creu fframwaith polisi 'symud o ddalfa ieuenctid i ddalfa oedolion' i sicrhau bod proses glir yn cael ei sefydlu sy'n diwallu anghenion Plant a Phobl Ifanc (CYP) sy'n symud o Ystad Ieuenctid Diogel.<br><br>Mae'r YCS wedi dechrau adolygiad o waith achos sy'n ystyried rôl a thasg y timau gwaith achos ynghyd â chyflwyno rôl arbenigol cyfiawnder ieuenctid a'r model rheoli ymddygiad ar y cyd. O dan yr adolygiad hwn, bydd adroddiad '*Sut i wneud Ailsefydlu'n broses Adeiladol*' y YJB yn cael ei ystyried, gan gynnwys sut y gall sefydliadau troseddwyr ifanc hyrwyddo gwaith ailsefydlu effeithiol ar draws yr holl asiantaethau ac adrannau sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau yn y maes hwn. Byddwn yn edrych ar hyn yn ogystal â chanfyddiadau'r adroddiad thematig. | Pennaeth Polisi Gweithredol YCS<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Ansawdd, Perfformiad a Gwybodaeth, Gwaith Achos, Partneriaethau a Newidiadau Busnes | Medi 2020<br><br>Awst 2020 |
| 5 | Mynnu bod pob asiantaeth ac adran YOIs yn dangos gwaith ailsefydlu effeithiol a chydgysylltiedig. | Cytuno | Mae gan y YCS weledigaeth ar gyfer 2020, i ddatblygu dull trawslywodraethol ar gyfer cefnogi a goruchwylio plant a phobl ifanc ar draws pob sector (gwasanaethau cyfiawnder, lles, iechyd a cymunedol). Mae'r YCS yn bwriadu edrych ar effeithiolrwydd ein hymyriadau a chynlluniau ailsefydlu mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid. Bydd hyn yn caniatáu i bob un ohonom ganolbwyntio'n briodol ar adnoddau.<br><br>Yn ogystal â hynny, rydym yn gweithio gyda GIG Lloegr i ddarparu GRISIAU DIOGEL, fframwaith gofal integredig sy'n cynnwys cymorth addysg, iechyd ac ymddygiad i sicrhau bod plant yn derbyn asesiadau anghenion llawn a chynlluniau gofal a chymorth wedi'u teilwra. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan dimau amlddisgyblaeth a fydd yn ymuno â'r ddarpariaeth gymunedol ac yn datblygu cynlluniau gofal clir sengl er mwyn sicrhau lefel gyson o ofal.<br><br>Mae cynllun cefnogi dalfa sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei gyflwyno mewn sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI). Mae'n darparu swyddog cymorth dynodedig i bob plentyn a byddant yn gweithio gyda hwy yn wythnosol i feithrin ymddiriedaeth a chysondeb. Bydd safleoedd yn cael staff ychwanegol i sicrhau bod y cynllun gofal yn cael ei gyflwyno a bydd y ddarpariaeth yn cael ei monitro ar gronfa ddata a bydd yr YCS yn rhyddhau swyddogion i ganolbwyntio ar ailsefydlu. | Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Ansawdd, Perfformiad a Gwybodaeth, Gwaith Achos, Partneriaethau a Newidiadau Busnes<br><br>YCS<br>GIG Lloegr a Gweithredu<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Ansawdd, Perfformiad a Gwybodaeth, Gwaith Achos, Partneriaethau a Newidiadau Busnes | Mawrth 2021<br><br>Mawrth 2021<br><br>Mai 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Fel y crybwyllwyd yn argymhelliad 4, bydd yr YCS yn parhau i wella canlyniadau ailsefydlu drwy'r rhaglen ddiwygio cyfiawnder ieuenctid a fydd yn adolygu gwaith achos yn unol â'r adroddiadau ailsefydlu ar wahân a gynhyrchwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r YJB. | Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Ansawdd, Perfformiad a Gwybodaeth, Gwaith Achos, Partneriaethau a Newidiadau Busnes | Awst 2020 |
| 6 | Cynyddu ystod ac argaeledd rhaglenni ymyrraeth i ddiwallu anghenion ailsefydlu'r bobl ifanc. | Cytuno'n rhannol | Cytunir yn rhannol â’r argymhelliad hwn. Mae'r dystiolaeth yn symud oddi wrth ddull o weithio sy'n seiliedig ar raglenni yng nghyswllt gwaith ailsefydlu (gweler Beyond Youth Custody) ac yn hytrach yn nodi cryfderau ymatal rhag troseddu yn seiliedig ar gryfderau gyda phwyslais ar ansawdd y berthynas â phlant o ran cefnogi plentyn ar ei daith tuag at ddyfodol cadarnhaol a di-drosedd. Mae'r dull hwn yn cael ei enghreifftio gan Ailsefydlu Adeiladol, sy'n hwyluso’r broses o newid hunaniaeth plentyn o un sy’n troseddu i fod yn rhan o gymdeithas trwy gymorth personol unigol a chymorth strwythurol unigol. Bydd y dull hwn yn atal troseddu yn y tymor hir. I gychwyn y newid hwn, mae pob cyswllt â'r plentyn yn bwysig, yn hytrach na dibynnu ar raglenni ffurfiol, gan eu bod yn gyfleoedd i adeiladu ar gryfderau'r plentyn, gan gynnwys drwy chwaraeon, addysg a hobïau.<br><br>Mae'r YCS wedi dechrau diwygio ei wasanaethau addysg ac mae yn y broses o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dysgu. Disgwylir i'r weledigaeth ar gyfer dysgu arwain at hyblygrwydd sydd wedi'i deilwra i anghenion plant mewn sefydliadau diogel. Rydym yn gweithio gyda'n darparwyr addysg i gynyddu hyblygrwydd y diwrnod craidd a'r cwricwlwm er mwyn caniatáu mwy o le, amser ac adnoddau i ddarparu plant gyda'r gweithgareddau sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion.<br><br>Ym mis Tachwedd 2019, dechreuwyd treialu hyblygrwydd y gyfundrefn graidd yn Wetherby a Werrington. Mae'r dull hwn yn galluogi llywodraethwyr i deilwra gweithgareddau i anghenion plant, gan sicrhau yn y pen draw y ceir ymagwedd gyson ar draws sefydliadau.<br><br>Rydym hefyd wedi datganoli cyllid ychwanegol i lywodraethwyr YOI i gomisiynu gweithgareddau addysgol, galwedigaethol a chyfoethogi ychwanegol sy'n ymgysylltu orau ac sy'n diwallu anghenion y plant yn eu sefydliadau. Mae hyn yn cyfateb i £ 0.3m yn 18/19 ac £1.8m yn 19/20 ar draws y pedwar safle troseddwyr ifanc cyhoeddus. | YCS | Hydref 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r YCS hefyd wedi ceisio cynyddu ymyraethau sydd ar gael trwy ddatblygu GRISIAU DIOGEL gyda GIG Lloegr yn ogystal â'r prosiect a arweinir gan NHS Improvement.<br><br>Mae'r ymyriad hwn, ynghyd â'r strategaeth rheoli ymddygiad, yn cynnig gweledigaeth o ofal integredig i ddarparu gofal sefydlog, integredig a therapiwtig i blant ym mhob rhan o'r ystad ddiogel. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y syniad bod "pob cyswllt yn bwysig" a bod barn pob aelod o staff yn hanfodol. Mae gosod GRISIAU DIOGEL hefyd yn cynnwys hyfforddiant gwell i staff i'w helpu i ddeall anghenion ac ymyriadau priodol ar gyfer y plant hyn.<br><br>Bydd yr YCS hefyd yn parhau i weithio gyda'r YJB i wella ein dealltwriaeth a'n gweithrediad o ailsefydlu adeiladol. | | |
| 7 | Diffinio rôl a thasgau timau gwaith achos a hyfforddi staff gwaith achos yn unol â hynny. | Cytuno | Mae'r YCS yn cynnal adolygiad o waith achos a fydd yn ystyried rôl a thasgau timau gwaith achos ynghyd â chyflwyno rôl arbenigol cyfiawnder ieuenctid a'r model rheoli ymddygiad ar y cyd. | Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Ansawdd, Perfformiad a Gwybodaeth, Gwaith Achos, Partneriaethau a Newidiadau Busnes | Awst 2020 |
| 8 | Datblygu'r ddarpariaeth i alluogi plant a phobl ifanc i wneud cais ar-lein ar gyfer cwrs a chyflogaeth tra'n dal yn y ddalfa. | Cytuno | Mae darpariaethau i alluogi plant i gael mynediad at gyrsiau ar-lein yn cael eu datblygu ac mae gan yr YCS bellach *Virtual Campus*. Ar hyn o bryd, mae'r defnydd yn gyfyngedig, ond mae ar fin cael ei ehangu a'i wella gyda dyfodiad VC2.0. Mae argaeledd Hyfforddwr Gyrfa EMSI hefyd ar gael ar y *Virtual Campus* lle gall plant ddefnyddio'r adnodd hwn i ddod o hyd i ddata cyflogaeth a swyddi. Mae sefydliadau hefyd wedi darparu eu cwricwlwm i boblogi EMSI felly mae'r cynnwys yn berthnasol ac wedi'i ddiweddaru. Yna gall darparwyr fapio eu darpariaeth i nodi cyrsiau a gyrfaoedd sydd ar gael i blant mewn sefydliadau.<br><br>At hynny, mae gennym gytundebau ar waith lle mae dyletswydd ar staff i gynorthwyo plant wrth iddynt chwilio am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Os oes rhwystr i gael gafael ar wybodaeth ar-lein, gall staff gael gafael ar yr wybodaeth a chefnogi cais y plentyn. | Sgiliau a Dysgu YCS | Ebrill 2020 |
| | **Dylai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:** | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Drafod a gweithredu mynediad at ddarpariaethau ar gyfer oedolion sy'n troseddu ynghyd â goruchwyliaeth gan YOTs. | Cytuno'n rhannol | Cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn oherwydd y cytunir bod plant yn parhau i gael eu goruchwylio gan YOTs, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd y ddarpariaeth ar gyfer oedolion sy'n troseddu yn addas. Fodd bynnag, rydym yn derbyn, wrth reoli achosion sy'n dod o dan y cylch gorchwyl o ran symud o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, y gall fod adegau pan fydd mynediad at wasanaethau oedolion (tra bydd plentyn dan oruchwyliaeth YOT) yn briodol.<br><br>Mae rhai rhwystrau gweithredol i alluogi YOTs i brynu gwasanaethau darpariaeth troseddol oedolion yn yr un modd y gall y NPS wneud. Rydym wrthi'n ystyried yr opsiynau a allai fod ar gael i ganiatáu i'r gweithgaredd hwn ddigwydd.<br><br>Fodd bynnag, mae'r protocol cenedlaethol ar y cyd ar gyfer trawsnewid yn Lloegr a phrotocol cyfatebol yng Nghymru yn darparu canllawiau ar gyfer rheoli trawsnewidiadau ac fel rhan o'u hadolygiad, byddwn yn ystyried sut y gallant annog dull hyblyg o symud ymhellach rhwng gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion.<br><br>Mae YBJ Cymru a NPS eisoes wedi diwygio'r canllawiau trawsnewid Y2A ar gyfer Cymru. Mae hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd cyn cyhoeddi'n derfynol ddechrau'r flwyddyn nesaf pan fydd y broses o ailstrwythuro'r gwasanaeth prawf wedi'i gwblhau. | Cyfarwyddwr Arloesi ac Ymgysylltu - Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cyfarwyddwr Rhanbarthol NPS (Canolbarth Lloegr)<br><br>YJB Cymru/NPS | Ebrill 2020<br><br>Mawrth 2020 |
| | **Rydym yn gwneud yr argymhellion ychwanegol:** | | | | |
| | **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru:** | | | | |
| 1 | Ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol o letyau yn y gymuned sy'n addas ar gyfer plant sy'n peri'r risg uchaf o niwed i'r cyhoedd, a darparu'r llety hwn ar sail ranbarthol. | Cytuno'n rhannol | Cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn gan nad oes gan HMPPS a'r MoJ unrhyw reolaeth uniongyrchol dros yr agenda a gyflwynir gan y DfE neu'r MHCLG neu Lywodraeth Cymru. Mae'r MoJ yn cytuno bod angen gwneud mwy i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu i bob plentyn sy'n gadael y ddalfa - gan gynnwys y rhai sy'n peri'r risg uchaf o niwed i'r cyhoedd.<br><br>Mae'r MoJ yn adolygu'r ddarpariaeth o lety. Bydd y MoJ yn gweithio gyda'r DfE, MHCLG a Llywodraeth Cymru i ystyried sut i sicrhau bod gan blant risg | Pennaeth Polisi y Ddalfa Ieuenctid ac Uwch Gynghorydd Polisi y Ddalfa Ieuenctid, MoJ | Gorffennaf 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | uchel lety addas ar adeg eu rhyddhau – gan gynnwys p'un ai rhwydwaith cenedlaethol o lety yn y gymuned fydd y dull gorau ai peidio.<br><br>Mae'r Tîm Troseddol a Chyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr polisi i benderfynu sut y gellir datblygu'r argymhelliad hwn. Er nad yw'r argymhelliad hwn yn nodwedd benodol o'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, https://gov.wales/supporting-young-offenders mae'r Glasbrint a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, a gyhoeddwyd ym mis Mai, yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn cydweithio i wella canlyniadau ailsefydlu i blant. Bydd hyn yn gyson ag ystyriaethau polisi sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n cael eu datblygu. | Tîm Troseddol a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru | |
| 2 | Datblygu strategaeth llety genedlaethol ar gyfer plant sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa. | Cytuno'n rhannol | Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn gan nad oes gan HMPPS a'r MoJ unrhyw reolaeth uniongyrchol dros yr agenda a gyflwynir gan y DfE neu'r MHCLG neu Lywodraeth Cymru. Mae'r MoJ yn cytuno bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gan blant sy'n gadael y ddalfa lety addas mewn da bryd cyn gadael.<br><br>Bydd y MoJ yn gweithio gyda'r DfE, MHCLG a Llywodraeth Cymru i wella'r ddarpariaeth llety i blant sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa<br><br>Mae'r Tîm Troseddol a Chyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr polisi i benderfynu sut y gellir datblygu'r argymhelliad hwn. Er nad yw'r argymhelliad hwn yn cael sylw penodol yn y Glasbrint YJ, mae'r Glasbrint a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, a gyhoeddwyd ym mis Mai, yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wella canlyniadau ailsefydlu i blant. Bydd hyn yn gyson ag ystyriaethau polisi sy'n bodoli eisoes a rhai sy'n cael eu datblygu. | Pennaeth Polisi y Ddalfa Ieuenctid ac Uwch Gynghorydd Polisi y Ddalfa Ieuenctid, MoJ<br><br>Tîm Troseddol a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru | Gorffennaf 2020 |
| | **Dylai'r Swyddfa Gartref:** | | | | |
| 3 | Adolygu prosesau 'rhyddhau tra bo ymchwiliad yn mynd rhagddo'. | Cytuno | Bydd adolygiad y Llywodraeth o'r ddeddfwriaeth ar fechnïaeth cyn cyhuddo, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ar 5 Tachwedd, hefyd yn edrych ar y defnydd o "ryddhau tra bo ymchwiliad yn mynd rhagddo" (RUI) ac a oes angen unrhyw newidiadau i sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael eu diogelu'n briodol, a bod ymchwiliadau yn cael eu cynnal yn gyflym. | Uned Pwerau'r Heddlu<br>Grŵp Troseddu, Plismona a Thân<br>Y Swyddfa Gartref | Mehefin 2020 |
| | **Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth** | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:** | | | | |
| 5 | Adolygu a chryfhau'r protocol trawsnewid cenedlaethol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion yn unig pan fo hynny er eu lles hwy eu hunain. | Cytuno | Mae'r NPS a'r YJB (drwy Fwrdd Llywodraethu Troseddwyr Ifanc a arweinir gan y NPS) yn adolygu'r protocol cenedlaethol ar y cyd ar gyfer trawsnewid yn Lloegr.<br><br>Mae secondiad 12 mis, wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Barrow Cadbury, wedi penodi rheolwr prosiect i helpu HMPPS i sefydlu arferion da gydag oedolion ifanc a bydd yn cefnogi'r gwaith hwn ac yn atgyfnerthu'r ffaith bod plant yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion dim ond pan fo hynny'n amlwg er mwyn iddynt allu gwneud hynny.<br><br>Ynghyd â hyn, mae'r YJB a'r NPS wedi diwygio'r canllawiau trawsnewid Y2A ar gyfer Cymru. Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn 2020 pan fydd y broses o ailstrwythuro'r Gwasanaeth Prawf wedi cael ei chwblhau. | Cyfarwyddwr Arloesi ac Ymgysylltu - Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cyfarwyddwr Rhanbarthol NPS (Canolbarth Lloegr) | Ebrill 2020<br><br>Rhagfyr 2020<br><br>Mawrth 2020 |
| | **Dylai'r YOT:** | | | | |
| 6 | Gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn weithredol mewn achosion ailsefydlu drwy gydol y ddedfryd. | Cytuno | Prif Weithredwyr awdurdodau lleol sy'n llywodraethu gwasanaethau troseddwyr ifanc unigol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i YOTs gydymffurfio â safonau Plant yn y System Gyfiawnder Ieuenctid 2019, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder ar sail cyngor gan y YJB. Caiff cydymffurfiaeth â'r safonau ei goruchwylio gan y YJB archwiliadau blynyddol. Disgwylir i'r archwiliad nesaf gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2020. Fel dyletswydd statudol sy'n ofynnol gan YOTs, bydd y YJB yn ystyried yr adolygiad o berfformiad canlyniadau ailsefydlu ar gyfer plant fel cyfle i farnu perfformiad YOTs a herio unrhyw berfformiad gwael yn y maes hwn. | YJB | Gorffennaf 2020 |
| 7 | Dadlau yn gyson ac yn gryf ar ran eu hachosion yn y ddalfa er mwyn sicrhau y bodlonir eu hanghenion. | Cytuno | Drwy'r broses archwilio flynyddol, bydd y YJB yn sicrhau ansawdd y gwasanaethau eirioli a ddarperir gan YOTs unigol i blant yn y ddalfa. Bydd y YJB yn helpu YOTs i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle mae perfformiad yn disgyn islaw'r safon ofynnol. | YJB | Gorffennaf 2020 |
| 8 | Hysbysu a chynnwys pobl ifanc yn y ddalfa cyn gynted â phosibl am yr amodau y | Cytuno | Bydd y YJB yn adolygu prydlondeb hysbysu ac addasrwydd amodau trwyddedau rhyddhau gan YOTs i blant fel rhan o'r broses archwilio flynyddol. Lle nad yw safonau neu ddyletswyddau disgwyliedig wedi'u cyflawni'n brydlon | YJB | Gorffennaf 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | byddant yn eu cynnwys ar drwydded y person ifanc. | | gan yr YOTs, bydd y YJB yn tynnu sylw at y pwyntiau hyn er mwyn gwella'r amserlenni hysbysu yn y dyfodol. | | |

Sylwer bod argymhellion ychwanegol yn ymddangos o 1-3 ac yna 5-8. Dilëwyd argymhelliad ychwanegol rhif 4 gan ei fod yn dyblygu prif argymhelliad 6.